# Y Trydydd Cynulliad - Cyfarfod Llawn

## Pleidleisiau a Thrafodion (232)

**Dyddiad: Dydd Mawrth 30 Tachwedd 2010**
**Amser: 13.30**

### 13.30
### Cynnig i ohirio'r Rheolau Sefydlog

**NDM4608 Dafydd Elis-Thomas (Dwyfor Meirionnydd)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheolau Sefydlog 35.6 a 35.8:

Yn atal Rheol Sefydlog 7.18 (i) a'r rhan honno o Reol Sefydlog 6.10 sy'n ei gwneud yn ofynnol bod y cyhoeddiad wythnosol o dan Reol Sefydlog 6.3 yn darparu'r amserlen ar gyfer busnes yn y Cyfarfod Llawn yr wythnos ganlynol, er mwyn caniatáu i'r cynnig o dan eitem 1 gael ei ystyried yn y Cyfarfod Llawn ddydd Mawrth 30 Tachwedd 2010.

**Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 7.35**

………………………

### 13.30
### Eitem 1: Cynigion i ethol Aelodau i bwyllgorau

**NDM4609 Dafydd Elis-Thomas (Dwyfor Meirionnydd)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 10.3 yn ethol Jonathan Morgan (Ceidwadwyr) yn aelod o'r Pwyllgor Iechyd, Lles a Llywodraeth Leol yn lle Darren Millar (Ceidwadwyr).

**Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 7.35**

**NDM4610Dafydd Elis-Thomas (Dwyfor Meirionnydd)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 10.3 yn ethol Nick Ramsay (Ceidwadwyr) yn aelod o'r Pwyllgor Iechyd, Lles a Llywodraeth Leol yn lle Andrew RT Davies (Ceidwadwyr).

**Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 7.35**

**NDM4611 Dafydd Elis-Thomas (Dwyfor Meirionnydd)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 10.3 yn ethol Darren Millar (Ceidwadwyr) yn aelod o'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus yn lle Nick Ramsay (Ceidwadwyr).

**Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 7.35**

**NDM4612 Dafydd Elis-Thomas (Dwyfor Meirionnydd)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 10.3 yn ethol David Melding (Ceidwadwyr) yn aelod o Bwyllgor Deddfwriaeth Rhif 5 yn lle Darren Millar (Ceidwadwyr).

**Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 7.35**

………………………

**13.31**
**Eitem 2: Cwestiynau i Brif Weinidog Cymru**

Gofynnwyd y 10 cwestiwn cyntaf.

………………………

**14.24**
**Eitem 3: Datganiad a Chyhoeddiad Busnes**

………………………

**14.40**
**Eitem 4: Datganiad gan y Gweinidog dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes: Strategaeth Addysg Uwch**

………………………

**15.23**
**Item 5: Datganiad gan y Dirprwy Weinidog dros Wasanaethau Cymdeithasol: Y Comisiwn Annibynnol ar Wasanaethau Cymdeithasol**

………………………

**16.10**
**Eitem 6: Cynnig i gymeradwyo Rheoliadau Codi Tâl am Fagiau Siopa Untro (Cymru) 2010**

**NDM4601 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru; yn unol â Rheol Sefydlog 24.4

1. Yn cymeradwyo bod y fersiwn drafft o'r Rheoliadau Codi Tâl am Fagiau Siopa Untro (Cymru) 2010 yn cael ei lunio yn unol â'r fersiwn drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 1 Tachwedd 2010.

**Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 7.35**

………………………

**16.42**
**Eitem 7: Dadl ar Adnewyddu'r Economi**

**NDM4602 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn nodi'r cynnydd sy'n cael ei wneud o ran cyflawni'r ymrwymiadau yn *Adnewyddu'r Economi: cyfeiriad newydd*.

**Gohiriwyd y bleidlais ar y cynnig a'r gwelliannau o dan yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.**

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1 - Nick Ramsay (Sir Fynwy)**

Dileu'r cyfan a rhoi yn ei le:

'Yn credu bod rhaid i adferiad economaidd llwyddiannus fod yn seiliedig ar amcanion strategol y cytunwyd arnynt gan y Cyngor Partneriaeth Busnes ar ei newydd wedd, a bod y Cyngor yn monitro ac yn gwerthuso'r amcanion hynny yn effeithiol.'

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 1:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 14 | 0 | 33 | 47 |

**Gwrthodwyd gwelliant 1.**

**Gwelliant 2 - Peter Black (Gorllewin De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn nodi y bydd cynllun cyflenwi cadarn ar gyfer rhaglen adfywio'r economi yn ofynnol er mwyn asesu gweithrediad y strategaeth.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 2:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 14 | 0 | 33 | 47 |

**Gwrthodwyd gwelliant 2.**

**Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig:**

**NDM4602 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn nodi'r cynnydd sy'n cael ei wneud o ran cyflawni'r ymrwymiadau yn *Adnewyddu'r Economi: cyfeiriad newydd*.

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 36 | 10 | 1 | 47 |

**Derbyniwyd y cynnig.**

………………………

**17.52**
**Cyfnod pleidleisio**

**Daeth y cyfarfod i ben am 17.52**

………………………

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13.30 ddydd Mercher 1 Rhagfyr 2010.**

**Ysgrifenyddiaeth y Siambr**